## NEWYDDION Y CYLCHLYTHYR



Yma ym mhencadlys Cylchlythyr y Pentref, rydym yn falch o gyhoeddi mai dyma ein rhifyn rhif 40!

Trwy'r glaw, gwyntoedd, eira ac, o bryd i'w gilydd, yr haul, mae ein gwirfoddolwyr hyd yma wedi danfon 11,600 copi ledled y dyffryn. Rydym yn danfon 290 copi o bob rhifyn ym mhentref Dolwyddelan, Blaenau Dolwyddelan, Pont-y-Pant a thu hwnt.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu cynnwys hyd yma ac i'n holl ddanfonwyr gwirfoddol sydd wedi brwydro yn erbyn blychau post lletchwith dros y ddegawd.

Os ydych yn darllen hwn, gobeithiaf ein bod wedi gallu rhannu gwybodaeth gyda chi a'ch diddanu dros y blynyddoedd, hir oes iddo barhau.

Os ydych chi, neu sefydliad yr ydych chi'n perthyn iddo, eisiau cynnwys unrhyw beth yn rhifyn nesaf o gylchlythyr Dolwyddelan, cysylltwch gyda Shaun; rhif ffôn: 750519 neu e-bost: dolwyddelannews@gmail.com

---

## CYMDEITHAS HANES DOLWYDDELAN 2025
## Tymor Newydd

7.00yh yn yr Ystafell Gwyddelan, y tu ôl i Ysgol Dolwyddelan.

Dydd Llun Medi 1af
**Muriau sy'n sibrwd**
gan Bill Jones, Llywydd Cymdeithas Hanes Dolwyddelan

-

Dydd Llun Hedref 6ed
**Yr Ysbiwyr Cymreig: Ysbïwriaeth Cymru a Gweithredoedd Cyfrinachol yn ystod yr Ail Ryfel Byd**
gan Bob Morris

-

Dydd Llun Tachwedd 3ydd
**Masnach Allforio Llechi**
gan Dr David Gwynn